

Dogfen ir Cyhoedd



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

GŴYS A RHAGLEN

SUMMONS AND AGENDA

ar gyfer

for a

**CYFARFOD BLYNYDDOL O
GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**ANNUAL MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

a gynhelir yn

to be held at the

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGFNI**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGFNI**

DYDD IAU, 12 MAI 2016

THURSDAY, 12 MAY, 2016

am 2.00 o'r gloch

at 2.00 p.m.

R H A G L E N

1. **CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2016/17.

(Cyfeirir yr Aelodau at Drefn y Busnes yng nghyswllt y seremoni i ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor Sir a ddosberthir yn y cyfarfod).

2. **IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn am 2016/17.

3. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

4. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb ynghylch unrhyw eitem ar y Rhaglen gan unrhyw Aelod neu Swyddog.

5. **DATGANIAD GAN YR ARWEINYDD/AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â Pharagraff 4.4.1.2 o'r Cyfansoddiad, derbyn gwybodaeth gan yr Arweinydd ynghylch enwau'r Cynghorwyr y mae ef/hi wedi'u dewis i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u cyfrifoldebau portffolio.

6. **ETHOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AM 2016/17**

Ethol Cadeirydd yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 o'r Cyfansoddiad.

7. **CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau unrhyw rannau o'r Cynllun Dirprwyo y mae'n rhaid i'r Cyngor, yn unol â'r Cyfansoddiad, gytuno arnynt (fel y nodir ym Mharagraff 3.2 y Cyfansoddiad).

8. **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

9. **CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU 2016/17**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

10. **CYRFF ALLANOL**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

11. **CYNLLUN DATBLYGU HYFFORDDIANT I AELODAU - DATBLYGU**

HYFFORDDIANT AELODAU 2016/17

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

12. RHESTR O GYFARFODYDD Y CYNGOR 2016/17

- i) Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
- ii) Cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd y Cyngor Sir am y flwyddyn i ddod:-
 - 27 Medi, 2016 - 2.00 pm
 - 15 Rhagfyr, 2016 - 2.00 pm
 - 28 Chwefror, 2017 - 2.00 pm
 - Mai, 2017 - (Cyfarfod Blynyddol) – dyddiad i'w gadarnhau

13. CADARNHAU'R PWYLLGORAU

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau cyfredol canlynol fel y cyfeirir at hynny yn Adran 3.4 Cyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol :-

- Panel Tâl a Graddfeydd (Is-Bwyllgor o'r Cyngor Sir)
- Panel Penodiadau'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol
- Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig
- Is-Bwyllgor Indemniadau

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	CYNGOR SIR
DYDDIAD:	12 MAI 2016
TEITL YR ADRODDIAD:	TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL YN Y CYNGOR
ADRODDIAD GAN:	PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
PWRPAS YR ADRODDIAD:	RHOI SYLW I FATER CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL AR BWYLLGORAU

- 1.0 Rhaid i'r Cyngor adolygu'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar ei Bwyllgorau yn flynyddol.
- 2.0 Nodir yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 y prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol, sef:

“(a) that not all the seats on the body are allocated to the same political group;

(b) that the majority of the seats on the body is allocated to a particular political group if the number of persons belonging to that group is a majority of the Authority’s membership;

(c) subject to (a) and (b) above, the number of seats on the ordinary committees of a relevant Authority which are allocated to each political group bears the same proportion to the total of all the seats on the ordinary committees of that Authority as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority; and

(d) subject to paragraphs (a) to (c) above, that the number of the seats on the body which are allocated to each political group bears the same proportion to the number of all the seats on that body as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority.”

- 3.0 O ran Aelodaeth Grwpiau mae'r sefyllfa fel yr oedd ar adeg cyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar 14 Mai 2015 sef:-

Plaid Cymru	-	12
Llafur	-	2
Grŵp Annibynnol	-	12
Grŵp Chwyldroad	-	2*
Digyswllt	-	2

* Mae un aelod o'r Grŵp wedi'i wahardd tan y 19 o Fai, 2016

- 4.0 Mae'r Matrics yn yr atodiad yn nodi faint o seddi a ddyrennir i bob grŵp ynghyd â nifer y seddau a ddyrennir i aelodau digyswllt yn unol â chonfensiwn lleol fel y cadarnhawyd gan y Cyngor ar 14 o Fai, 2015.
- 5.0 Yn unol â'r protocolau sy'n ymwneud â rheolaeth wleidyddol, mae'r trefniadau ar gyfer rheolaeth wleidyddol wedi cael eu trafod gydag Arweinyddion y Grwpiau.
- 6.0 **Argymhellion:-**
- (i) cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a ddyrannwyd i bob un o'r Grwpiau yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a nifer y seddau a ddyrannwyd yn ôl traddodiad ac arfer i Aelodau nad yw cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol iddynt ac fel y nodir yn y matrics;
 - (ii) yn amodol ar (i) uchod cadarnhau bod apwyntiadau ar gyfer aelodau di gyswllt ar bwyllgorau yn parhau yn unol â'r trefniadau presennol.
 - (iii) bod Arweinyddion Grwpiau yn hysbysu Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd cyn gynted a phosib ynglŷn ag unrhyw newidiadau o ran aelodaeth ar bwyllgorau

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
14/04/16

MAI 2016
MAY 2016

PWYLLGORAU CRAFFU A THROSOLWG SCRUTINY AND OVERVIEW COMMITTEES			
Pwyllgorau	Partneriaeth	Corfforaethol	Cyfanswm Craffu
Committees	Partnership	Corporate	Total Scrutiny
Aelodaeth Membership	10	10	20
	4	4	8
	4	4	8
	0.666667	0.66667	1.33333
	1	0	1
	4	4	8
	4	4	8
	0.666667	0.66667	1.33333
	0	1	1
	0.666667	0.66667	1.33333
	1	1	2
	10	10	20
	10	10	20

Balans ar y Cyngor Sir Balance on County Council	
Plaid Cymru Party of Wales	12
Llafur Labour	2
Grwp Annibynnol Independent Group	12
Grwp Chwyldroad Revolutionist Group	2
Heb Ymaelodi* Unaffiliated*	2
	30

ALLWEDD	KEY
<i>Chwith uchaf, italic = hawl ffracsiynol damcaniaeth</i>	
<i>Top left, italic, theoretical fractional entitlement</i>	
Dde isaf, arferol = awgrym rhif llawn	
Bottom right, normal = whole number suggestion	

Pwyllgorau Committees	LLED-FARNWROL QUASI-JUDICIAL								PWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR OTHER COMMITTEES OF THE COUNCIL							Cyfanswm Eraill Total Others	CYFANSWM LLAWN GRAND TOTAL
	Cynllunio a Gorchymynion	Archwilio	Gwasanaethau Democratiaidd	Penodiadau	Ymchwilio	Disgyblu	Apeliadau	Trwyddedu	CYSAG	Anghenion Addysgol Arbenig Special Educational Needs	Cynllunio ar y cyd	Tal a Graddio	Penodi Safonau	Is-Bwyllgor Inderniadau			
	Planning and Orders	Audit	Democratic Services	Appointments	Investigation	Disciplinary	Appeals	Licensing	SACRE	Joint Educational Needs	Joint Planning	Pay and Grading	Standards Appointing	Indemnities sub-Committee			
Aelodaeth Membership	11	8	10	10	3	3	10	11	6	7	7	6	3	5	100	120	
Plaid Cymru Party of Wales	4.4 5	3.2 3	4 4	4 4	1.2 1	1.2 1	4 4	4.4 5	2.4 2	2.8 3	2.8 3	2.4 2	1.2 1	2 2	40 40	48 48	
Llafur Labour	0.73333 0	0.53333 0	0.66667 1	0.66667 1	0.2 1	0.2 0	0.666667 0	0.733333 0	0.4 1	0.46667 1	0.46667 1	0.4 1	0.2 0	0.333333 0	6.666667 7	8 8	
Grwp Annibynnol Independent Group	4.4 5	3.2 3	4 4	4 4	1.2 1	1.2 1	4 4	4.4 5	2.4 2	2.8 3	2.8 3	2.4 2	1.2 1	2 2	40 40	48 48	
Grwp Chwyldroad Revolutionist Group	0.73333 1	0.53333 1	0.66667 1	0.66667 1	0.2 0	0.2 0	0.666667 1	0.733333 1	0.4 0	0.46667 0	0.46667 0	0.4 1	0.2 0	0.333333 0	6.666667 7	8 8	
Heb Ymaelodi Unaffiliated	0.73333 0	0.53333 1	0.66667 0	0.66667 0	0.2 0	0.2 1	0.666667 1	0.733333 0	0.4 1	0.46667 0	0.46667 0	0.4 0	0.2 1	0.333333 1	6.666667 6	8 8	
	11 11	8 8	10 10	10 10	3 3	3 3	10 10	11 11	6 6	7 7	7 7	6 6	3 3	5 5	100 100	120 120	

* Diffinir aelodau heb ymaelodi fel Aelodau nad yw'n rhan o o grŵp gwleidyddol yn y Cyngor
*Unaffiliated Members are defined as those Members who are not Members of political groups represented on the Council

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Cyfarfod:	Cyngor Sir
Dyddiad:	12 Mai 2016
Teitl yr adroddiad:	Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau ar gyfer 2016/17
Adroddiad gan:	Pennaeth Gwasanaethau Democraidd a Phennaeth Swyddogaeth - Adnoddau
Pwrpas yr Adroddiad:	Penderfynu nifer a lefelau taliadau uwch gyflog ar gyfer 2016/17

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn annibynnol ar lywodraeth ganolog a lleol ac fe'i sefydlwyd yn y lle cyntaf i benderfynu ystod a lefelau lwfansau sy'n daladwy i gynghorwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Panel lunio Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r math a'r lefelau o daliadau y mae awdurdodau'n gallu neu'n gorfod eu gwneud i'w haelodau ac i aelodau cyfetholedig.
- 1.2 Mae'r taliadau i aelodau, gan gynnwys taliadau i aelodau cyfetholedig, ar gyfer 2016/17 wedi eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (Y Panel) yn ei adroddiad blynyddol dyddiedig Chwefror 2016. Gosodir allan y prif newidiadau yn yr adroddiad hwn. Mae angen adrodd i'r Cyngor ar y wybodaeth hon er mwyn cadarnhau nifer yr Aelodau sydd â hawl i dderbyn uwch gyflog, ynghyd â'r symiau sy'n daladwy i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith, Cadeiryddion Pwyllgorau, Arweinyddion ac Is-Arweinyddion Dinesig. Mae yna gyllideb mewn lle am 2016/17 ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i aelodau.

2.0 Taliadau i aelodau etholedig prif gynghorau

Cyflog sylfaenol

- 2.1 Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd unrhyw gynnydd yn lefel y cyflog sylfaenol i aelodau'r prif gynghorau. Bydd y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig y prif gynghorau felly'n aros yn **£13,300** yn 2016/17.

Uwch gyflogau

- 2.2 Mae gan y Cyngor ddisgresiwn ynghylch nifer yr uwch gyflogau y mae'n eu talu, hyd at yr uchafswm a bennwyd gan y Panel. Mae'r nifer uchaf o uwch gyflogau y gellir eu talu yn Ynys Môn yn parhau i fod yn 15 ar gyfer 2016/17 ac mae'r ffigwr hwn yn dal i gynnwys cyflogau dinesig. Ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol, penderfynodd y Cyngor ddyrannu uwch gyflogau i 14 o Aelodau a oedd yn dal swyddi a hynny er mwyn lleihau costau democrataidd.

- 2.3 Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd lefelau uwch gyflog 2016/17 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn fel y nodir isod:

Uwch Gyflogau (sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol):		
Band 1	Arweinydd Dirprwy Arweinydd	£43,000 £30,000
Band 2	Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith – Lefel 1 Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith – Lefel 2	£26,000 £23,400
Band 3	Cadeiryddion Pwyllgor (os y'u telir) Lefel 1 Lefel 2	£22,000 £20,000
Band 4	Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf*	£22,000
Band 5	Arweinydd grŵp gwrthbleidiol arall*	£17,000
<p>* Rhaid i gyngor sicrhau bod uwch gyflog ar gael i arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf. Mae'r amod bod rhaid i arweinydd grŵp gwrthbleidiol neu unrhyw arweinydd grŵp arall gynrychioli o leiaf 10% o aelodaeth y cyngor cyn cymhwyso am uwch gyflog yn aros yr un fath.</p>		

Band 2 – Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith

- 2.4 Mae'r Panel wedi cyflwyno dwy lefel o daliadau ar gyfer aelodau o'r Pwyllgor Gwaith. Ym Môn, £26,000 yw Lefel 1 a £23,400 yw Lefel 2. Ar hyn o bryd, mae aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ym Môn yn cael eu talu £26,000. Mae Adroddiad Blynyddol y Panel yn nodi:

“Er bod nifer o gynghorau yn gweithredu gyda chabinet o 10, yr uchafswm statudol, mae rhai eraill yn penderfynu cael cabinetau llai ac felly mae terfynau portffolios unigol yn llawer mwy. Rydym wedi dod i'r casgliad dylai hyn cael ei adlewyrchu yn y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol. Nid rôl y Panel yw ef i benderfynu ar strwythur cabinetau awdurdodau lleol, felly mae'r penderfyniadau newydd yn rhoi hyblygrwydd i bob cyngor benderfynu ar ystod addas o bortffolios i gwrdd ag anghenion lleol, yn cydnabod bod amrywiaeth anochel yn lefel dyletswydd a llwyth gwaith”..... “Bydd yn fater i awdurdodau unigol i benderfynu ar weithrediad y penderfyniadau hyn o fewn eu strwythurau cabinet penodol.”

Band 3 – Cadeiryddion Pwyllgorau

- 2.5 Mae'r Panel hefyd wedi cyflwyno dwy lefel o daliadau i Gadeiryddion Pwyllgorau. Y ddwy lefel o daliadau ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau (os y'u telir) yw £22,000 ar Lefel 1 a £20,000 ar Lefel 2. Ar hyn o bryd, mae Cadeiryddion Pwyllgorau ym Môn sy'n derbyn uwch gyflog yn cael eu talu £22,000. Mae Adroddiad Blynyddol y Panel yn nodi:

“Mae'r Panel yn parhau i fod o'r farn nad yw cyfrifoldeb a swyddogaeth cadeirio pwyllgor yn cael ei effeithio gan boblogaeth yr awdurdod yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth bod cyfrifoldeb penodol a llwyth gwaith rhai cadeiryddion yn fwy na rhai eraill. Mae hyn wedi bod yn bwnc trafod parhaol i ni. Rydym yn ystyried bod rhaid adlewyrchu hyn yn y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol.”..... “Mae'n fater i awdurdodau unigol benderfynu ar ba lefel y ddelir i gadeirydd i adlewyrchu'n briodol y cyfrifoldeb sydd ynghlwm â'r swydd.”

- 2.6 Nid yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cefnogi gwahaniaethu rhwng cyflogau Aelodau o'r Cabinet na Chadeiryddion Pwyllgorau ac yn cefnogi talu cyflogau ar Lefel 1 er mwyn adlewyrchu cyfrifoldebau. Mae'r Cyngor hefyd wedi anfon sylwadau i'r Panel yn seiliedig ar hyn yn ystod yr ymgynghoriad ar adroddiad drafft y Panel.
- 2.7 Fe ymgynghorwyd gydag arweinyddion grwpiau ar y lefelau talu a'r farn fwyafrifol oedd y dylai taliadau Lefel 1 barhau. Un o'r rhesymau dros y farn hon yw bod cyfanswm y gost ym Môn yn is na'r argymhelliad sylfaenol gan fod y nifer o ddeilyddion portffolio'n llai na'r uchafswm a geir yma.

Penaethiaid dinesig a dirprwy bennaethiaid dinesig

- 2.8 Mae'r Panel yn parhau o'r farn ei bod yn briodol i awdurdodau bennu lefelau talu sy'n adlewyrchu gweithgarwch a chyfrifoldeb yn hytrach na phoblogaeth. Gall cyngor benderfynu peidio â rhoi cyflog dinesig i swyddi pennaeth dinesig a dirprwy bennaeth dinesig.
- 2.9 Mae gan y Cyngor felly ddisgresiwn i dalu cyflog dinesig (sy'n cynnwys y cyflog sylfaenol) yn unol â'r lefelau taliadau canlynol a benderfynwyd gan y Panel:

Cyflogau Dinesig (sy'n cynnwys y Cyflog Sylfaenol):	
Pennaeth Dinesig (Cadeirydd y Cyngor)	A - £24,000 B - £21,500 C - £19,000
Dirprwy Bennaeth Dinesig (Dirprwy Gadeirydd y Cyngor)	A - £18,000 B - £16,000 C - £14,000

- 2.10 Ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf, derbyniodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gyflogau o £19,000 a £14,000 yn ôl eu trefn, gan gynnwys y cyflog sylfaenol.

Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

- 2.11 Bu l'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y penderfyniadau uchod ar gyfer 2016/17 yn ei gyfarfod ar 23 Mawrth 2016, pryd y penderfynwyd:

“argymell i'r Cyngor llawn ar 12 Mai 2016 y dylai taliadau ar gyfer 2016/17 fod yn seiliedig ar lefelau 2015/16 sef:-

Talu cyflogau Lefel 1 i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith;
Talu Lefel 1 i Gadeiryddion Pwyllgorau;
Talu Lefelau C i Arweinyddion Dinesig a Dirprwy Arweinyddion Dinesig.”

Y ffactorau allweddol sy'n sail i benderfyniadau'r Panel

- 2.12 Y cyflog sylfaenol, a delir i bob aelod, yw'r gydnabyddiaeth ariannol am y cyfrifoldeb o gynrychiolaeth gymunedol a chymryd rhan yn y gwaith o graffu, rheoleiddio neu swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol am gyfnod sy'n gyfwerth â thri diwrnod yr wythnos. Mae unrhyw ymrwymiad amser y tu hwnt i dri diwrnod yn gyfraniad gwasanaeth cyhoeddus di-dâl.
- 2.13 Mae'n rhaid talu'r cyflog a'r costau sydd wedi'u pennu yn llawn i bob aelod, ac eithrio bod unigolyn wedi dewis yn annibynnol a gwirfoddol yn ysgrifenedig i swyddog priodol yr awdurdod i ildio'r holl daliad neu unrhyw elfen ohono.
- Rhaid gweithredu'r canlynol:
- 2.14 Ni all aelod etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol am fwy nag un swydd uwch o fewn ei awdurdod ef neu hi.
- 2.15 Ni ellir talu uwch gyflog a chyflog dinesig i aelod etholedig.
- 2.16 Mae'r cyflog sylfaenol yn gynwysedig ym mhob uwch gyflog a chyflog dinesig a delir.
- 2.17 Os yw cyngor yn dewis cael mwy nag un dirprwy arweinydd sy'n derbyn cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng uwch gyflog y dirprwy arweinydd ac aelodau gweithredol eraill gyda nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at uwch gyflog aelodau gweithredol eraill er mwyn cyfrifo'r uwch gyflog sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd.
- 2.18 Ni all aelodau sy'n derbyn uwch gyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y maent wedi'u penodi ar eu cyfer.

3.0 Cynorthwyo gwaith aelodau etholedig awdurdod lleol

- 3.1 Mae gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd rôl benodol i sicrhau bod aelodau etholedig yn derbyn cefnogaeth i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd y materion hyn yn ffurfio rhan o raglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2016/17.

4.0 Taliadau i aelodau cyfetholedig prif gynghorau

- 4.1 Rhoddir isod y penderfyniadau ar gyfer 2016/17:

Rhaid i Awdurdodau Lleol dalu'r ffioedd isod i Aelodau Cyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio):	
Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau a Phwyllgorau Archwilio	£256 (4 awr a throsodd) £128 (hyd at 4 awr)
Aelodau cyffredin o Bwyllgorau Safonau sydd hefyd yn Cadeirio Pwyllgorau Safonau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned	£226 ffi ddyddiol (4 awr a throsodd) £113 (hyd at 4 awr)
Aelodau cyffredin o Bwyllgorau Safonau, Pwyllgor Sgriwtini Addysg; Pwyllgor Sgriwtini Trosedd ac Anhrefn a'r Pwyllgor Archwilio.	£198 (4 awr a throsodd) £99 (hyd at 4 awr)

- 4.2 Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig – gall swyddog priodol benderfynu faint cyn y cyfarfod.
- 4.3 Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).
- 4.4 Gall y swyddog priodol yn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn a thelir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr.
- 4.5 Mae cyfarfodydd sy'n gymwys am daliad ffi yn cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y mae gofyn i aelodau cyfetholedig eu mynychu.

5.0 Taliadau a lwfansau eraill

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn manylu ar daliadau a lwfansau eraill sydd yn daladwy fel y pennwyd gan y Panel.

Ad-dalu costau teithio

- 5.1 Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd unrhyw newid yn 2016/17 i'r cyfraddau milltiredd y mae gan aelodau hawl i'w hawlio. Dim ond ad-dalu costau teithio i'w aelodau am gyflawni busnes swyddogol y gall pob awdurdod ei wneud, ar gyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sef:
- 45p y filltir – hyd at 10,000 milltir y flwyddyn mewn car
 - 25p y filltir – dros 10,000 milltir y flwyddyn mewn car
 - 5p y teithiwr y filltir – tâl ychwanegol am deithiwr arall
 - 24p y filltir – beiciau modur
 - 20p y filltir – beiciau
- 5.2 Dylai awdurdodau dalu'r cyfraddau milltiroedd a ragnodir i aelod sydd wedi bod yn deithiwr mewn cerbyd sy'n cael ei yrru gan rywun arall cyn belled ag y bo'r awdurdod yn fodlon fod cost wedi'i gwario gan yr aelod. Mae costau teithio a delir i gynghorwyr gan eu hawdurdod lleol wedi'u heithrio rhag treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol gweithwyr.

Ad-dalu costau cynhaliaeth

- 5.3 Mae ad-daliadau costau cynhaliaeth ar gyfer aelodau ac aelodau etholedig yn seiliedig ar y cyfraddau uchaf a nodir isod a bennwyd gan y Panel a hynny ar sail hawliadau gyda derbynebaw, ac eithrio ar achlysuron lle mae aelodau'n aros gyda ffrindiau a/neu deulu:
- £28 y diwrnod – Lwfans dydd am brydau, gan gynnwys brechwast, lle nad oedd
 - wedi'i gynnwys yn y taliad dros nos
 - £150 y noson - Llundain
 - £95 y noson – rhywle arall
 - £25 y noson – aros dros nos gyda ffrindiau a/neu deulu

Ad-dalu costau gofal

- 5.4 Mae'r Panel wedi penderfynu bod rhaid i bob awdurdod ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol i ofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond pan fydd y gofalwr yn dangos derbynebaw y gwneir ad-daliadau.
- 5.5 Mae'r Panel hefyd wedi penderfynu eleni bod rhaid i bob awdurdod ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol anghenion gofal personol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond wrth weld derbynebaw'r darparwr gofal y gwneir ad-daliadau.
- 5.6 Bwriad ad-dalu costau lwfans gofal yw galluogi unrhyw unigolyn y byddai ei allu i gymryd rhan fel aelod o awdurdod yn cael ei gyfyngu gan ei gyfrifoldebau fel gofalwr. Mae'r Panel yn cydnabod bod rhywfaint o sensitifrwydd yn ymwneud â chyhoeddi'r costau dilys hyn. Fodd bynnag, mae'r Panel yn cymhell awdurdodau i annog mwy o bobl i fanteisio ar y cymorth hwn er mwyn hwyluso mwy o amrywiaeth ymysg aelodau awdurdodau.
- 5.7 Byddai darpariaeth o'r fath yn berthnasol iawn i'r unigolion hynny mewn sectorau o'r boblogaeth sy'n cael eu tangynrychioli mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd, ond a allai ymgysylltu pan fydd ymwybyddiaeth ehangach o'r cymorth sydd ar gael ar gyfer costau gofal.

Yr Hawl i Absenoldeb Teuluol

- 5.8 Cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'r rheoliadau oedd yn ymdrin ag Absenoldeb Teuluol ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau yng Nghymru ym mis Tachwedd 2013. Mae'r Panel wedi ystyried goblygiadau'r rheoliadau hyn ar gydnabyddiaeth ariannol y cyfryw aelodau sy'n cymryd absenoldeb o'u swydd fel aelod o dan delerau rheoliadau Llywodraeth Cymru ac mae penderfyniadau'r Panel wedi'u nodi isod:
- Mae gan aelod hawl i gadw cyflog sylfaenol pan fydd yn cymryd Absenoldeb Teuluol o dan y rheoliadau, beth bynnag yw'r cofnod presenoldeb yn syth cyn cychwyn yr Absenoldeb Teuluol.
 - Pan fydd uwch ddeilydd cyflog yn gymwys i gael Absenoldeb Teuluol, bydd yn gallu parhau i dderbyn y cyflog drwy gydol yr absenoldeb.
 - Mater i'r awdurdod yw penderfynu penodi dirprwy ai peidio. Bydd yr aelod sy'n dirprwyo ar ran uwch ddeiliad cyflog sy'n cymryd Absenoldeb Teuluol yn gymwys i gael cyflog uwch os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny.
 - Os yw talu i'r dirprwy yn golygu bod yr awdurdod yn talu mwy na'r uchafswm o uwch gyflogau sy'n ymwneud ag o, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Panel, caniateir ychwanegiad i'r uchafswm tra bydd y dirprwy yn y swydd. Fodd bynnag, ni all y Cyngor hwn wneud hyn pe byddai'n golygu bod nifer yr uwch gyflogau yn fwy na hanner cant y cant o aelodaeth y Cyngor. Byddai angen cymeradwyaeth benodol gan Weinidogion Cymru yn yr achos hynny.

- Pan fydd awdurdod yn cytuno ar ddirprwy ar gyfer Absenoldeb Teuluol, rhaid hysbysu'r Panel o'r manylion o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys manylion y swydd benodol ac am ba hyd y penodwyd y dirprwy.
- Rhaid diwygio'r atodlen cydnabyddiaeth ariannol er mwyn adlewyrchu goblygiadau'r Absenoldeb Teuluol.

Darpariaeth pensiwn

- 5.9 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi pŵer i'r Panel wneud penderfyniadau am hawliau pensiwn ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau.
- 5.10 Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd yr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gymwys i holl aelodau etholedig cymwys prif gynghorau.

6.0 Argymhellion

Gofynnir i'r Cyngor:

- 6.1 gadarnhau y dylid talu Uwch Gyflogau ar gyfer y swyddi canlynol yn ystod 2016/17:
- Cadeirydd y Cyngor
Is-Gadeirydd y Cyngor
Arweinydd
Dirprwy Arweinydd
Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (5)
Cadeiryddion y ddau Bwyllgor Sgriwtini
Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf
- 6.2 ystyried argymhellion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 23 Mawrth 2016 mewn perthynas â thalu uwch gyflogau (yr amlinellir ym mharagraff 2.11) a chadarnhau lefelau taliadau uwch gyflogau yn ystod 2016/17 ar gyfer:
- Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith
 - Cadeiryddion Pwyllgorau
 - Pennaeth Dinesig a Dirprwy Bennaeth Dinesig
- 6.3 nodi manylion eraill ynghylch taliadau a lwfansau ar gyfer 2016/17 a bennwyd gan y Panel.

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
30/04/16

DRAFT

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
CYFARFOD:	CYNGOR SIR
DYDDIAD:	12 MAI 2016
TEITL YR ADRODDIAD:	CYRFF ALLANOL
PWRPAS YR ADRODDIAD:	CADARNHAU APWYNTIADAU I GYRFF ALLANOL AR GYFER 2016/17
ADRODDIAD GAN:	PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

1.0 Cefndir

Yn unol â rheol gweithdrefn 4.1.1.2.7 (ii) y Cyngor, mae'n ofynnol i'r cyfarfod blynyddol dderbyn a chadarnhau rhestr o aelodau i wasanaethu ar gyrff allanol sydd ddim yn gorfod bod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn unol ag adran 5.8.4.2 y Cyfansoddiad. Mae copi o'r apwyntiadau cyfredol ynghlwm a bydd angen i'r Cyngor gadarnhau apwyntiadau.

- 1.1** Yn unol â'r protocol rheolaeth gwleidyddol ymgynghorwyd gyda'r Arweinyddion Grwpiau. Yn ystod 2016/17 bwriedir ymgynghori gydag Arweinyddion Grwpiau ynglŷn â rhestr o apwyntiadau i gyrff allanol er mwyn paratoi argymhellion i'r Cyngor yn 2017.

2.0 Argymhelliad

Cytuno a chadarnhau'r apwyntiadau a welir yn y rhestr ynghlwm.

Huw Jones
Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
21/04/16

CYRFF ALLANOL, CYD BWYLLGORAU A PHARTNERIAETHAU – EBRILL, 2016

I'W PENDERFYNU A'U CADARNHAU GAN Y CYNGOR

Rhif	Teitl	Nifer eu hangen	Enwau
1.	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (1) (3 aelod i'w penodi tan yr Etholiadau Awdurdod Lleol nesaf ym Mai 2017)	3	L Davies, Jim Evans, R O Jones
2.	Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (1.1) (2 aelod o'r 3 uchod)	2	L Davies, R O Jones
3.	Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (1.2) (yr aelod sydd ar ôl)	1	Jim Evans
4.	Cyngor Iechyd Cymunedol Ynys Môn (9) (3 aelod i wasanaethu ar Bwyllgor Lleol Ynys Môn tan yr Etholiadau Awdurdod Lleol ym Mai 2017).	3	Jeff Evans, Dylan Rees, Dafydd Rhys Thomas
5.	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (13.1) (Arweinydd a Dirprwy Arweinydd)	2	I Williams, J Arwel Roberts
6.	Grŵp Cydranddeiliaid Safle Wylfa (16) (7 aelod yn cynnwys yr aelodau lleol yn Wardiau Talybolion a Thwrcelyn ac 1 aelod o'r Awdurdod).	7	W T Hughes, A M Jones, R O Jones, J Griffith, K P Hughes, Llinos M Huws, A Rowlands
7.	Grŵp Cyswllt Prosiect Niwclear Horizon (105) (Gall unrhyw Aelod o'r Awdurdod fynychu ond dylai cynrychiolaeth y Cyngor Sir fod yn 7 aelod, yn cynnwys yr aelodau lleol o Wardiau Talybolion a Thwrcelyn ac 1 aelod o'r Awdurdod).	7	W T Hughes, A M Jones, R O Jones, J Griffith, K P Hughes, Llinos M Huws, D R Thomas.
8.	Pwyllgor Cronfa Bensiynau Gwynedd (90)	1	H E Jones
9.	A.H.N.E. (92) (4 Aelod o Wardiau arfordirol yn ddelfrydol yn dod o bedwar pwynt y cwmpawd ar yr ynys).	4	R Dew, L Davies, D R Hughes, Victor Hughes
10.	Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (1 aelod annibynnol) (Gall fod am y flwyddyn ddinesig ond y mae'n arferol i bwrpasau parhad i'r penodiadau gael eu gwneud tan yr Etholiadau Awdurdod Lleol nesaf ym Mai 2013).	1	W T Hughes
11.	CAB Ynys Môn (35) (Aelod unigol)	1	R LI Jones
12.	Medrwn Môn (37) (Sylwedydd heb bleidlais)	1	I Williams
13.	Grŵp Mynediad Ynys Môn (58) (Aelod unigol)	1	Bob Parry
14.	Age Cymru Gwynedd a Môn (69) (Aelod unigol)	1	Jim Evans
15.	Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd Penrhosllugwy (76) (aelod lleol)	1	D R Hughes
